Asiantaeth Safonau Bwyd
food.gov.uk
Food Standards Agency

**Atodiad 2**

Cynllun gweithredu wedi'i ddiweddaru ar gyfer Cyngor Dinas Casnewydd
Dyddiad yr archwiliad gwreiddiol: 13 – 17 Ionawr 2014
Dyddiad yr ymweliad dilynol cyntaf: 5 – 6 Gorffennaf 2017
Dyddiad yr ail ymweliad dilynol: 5 – 6 Awst 2019

Dyddiad yr ymweliad archwilio: 15 – 16 Ionawr 2025

Allwedd statws

| | |
|---|---|
| Glas | Cwblhawyd |
| Gwyrdd | Cynnydd da |
| Oren | Cynnydd cyfyngedig |
| Coch | Dim cynnydd |

| Argymhelliad | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni | |
|---|---|---|---|---|---|
| 3.23 (i) Datblygu'r trefniadau cynllunio gwasanaeth ymhellach, yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth yn y Cytundeb Fframwaith. Dylid cynnwys asesiad o'r adnoddau sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid o gymharu â'r adnoddau sydd ar gael. [Y Safon – 3.1] | Oren | Sicrhau bod cynlluniau gwasanaeth bwyd yn y dyfodol yn cael eu datblygu yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth i gynnwys y canlynol:<br>- o fewn yr asesiad adnoddau, datganiad o nifer y swyddi sy'n ofynnol i ddarparu'r gwasanaeth a nifer y swyddi sydd ar gael (o ran swyddi cyfwerth ag amser llawn) a gwahaniaethu rhwng nifer y staff cymwys a'r staff cymorth<br>- archwilio'r duedd o ran twf neu ostyngiad mewn gwariant sy'n gysylltiedig â darparu'r gwasanaeth mewn termau real<br>- sicrhau bod ffigurau sy'n ymwneud â chyfanswm yr ymyriadau safonau bwyd dyledus sy'n ofynnol i gydymffurfio â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd yn gywir ac yn cynnwys ymyriadau mewn sefydliadau sydd â sgôr A, B ac C, sefydliadau heb sgôr, ac unrhyw ymyriadau a drosglwyddwyd o'r flwyddyn flaenorol<br>- cynnwys yr holl wybodaeth am berfformiad y blynyddoedd blaenorol yn erbyn y cynllun gwasanaeth ac unrhyw dargedau perfformiad, safonau a chanlyniadau penodol gan gynnwys ar gyfer sefydliadau sydd â sgôr A, B ac C, sefydliadau heb sgôr a busnesau newydd<br>- sicrhau bod yr holl amrywiadau'n cael eu nodi a'u hegluro yn ystod yr adolygiad cyflenwi gwasanaethau blynyddol gan gynnwys y rheiny mewn perthynas ag ymyriadau hylendid bwyd a raglennwyd sy'n hwyr, sefydliadau heb sgôr a busnesau newydd<br>- sicrhau y rhoddir sylw i'r rhain (lle bo angen) fel meysydd i'w gwella | Mae gwelliannau a wnaed i'r trefniadau cynllunio gwasanaethau safonau bwyd yn cynnwys:<br>- datganiad o nifer y swyddi sydd eu hangen i ddarparu'r gwasanaeth a nifer y swyddi sydd ar gael (o ran swyddi cyfwerth ag amser llawn), gan wahaniaethu rhwng staff cymwys a staff cymorth<br>- ymyriadau dyledus a hwyr yn ôl categori risg, ac eithrio safleoedd heb sgôr | Sicrhau bod cynlluniau gwasanaeth bwyd yn y dyfodol yn cael eu datblygu yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth i gynnwys y canlynol:<br>- archwiliad o'r duedd o ran twf neu ostyngiad mewn gwariant sy'n gysylltiedig â darparu'r gwasanaeth mewn termau real<br>- sicrhau bod ffigurau sy'n ymwneud â chyfanswm yr ymyriadau safonau bwyd dyledus a hwyr sy'n ofynnol i gydymffurfio â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd yn cynnwys ymyriadau mewn sefydliadau newydd heb sgôr, ac unrhyw ymyriadau ar gyfer sefydliadau heb sgôr a drosglwyddwyd o'r flwyddyn flaenorol<br>- nodi ac egluro'r holl amrywiadau yn ystod yr adolygiad cyflenwi gwasanaethau blynyddol gan gynnwys y rheiny mewn perthynas ag ymyriadau safonau bwyd a raglennwyd sy'n hwyr a sefydliadau heb sgôr<br>- meysydd i'w gwella sy'n mynd i'r afael â'r amrywiadau a nodwyd | Safonau Masnach |

| Argymhelliad | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni | |
|---|---|---|---|---|---|
| 3.23 (i) Datblygu'r trefniadau cynllunio gwasanaeth ymhellach, yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth yn y Cytundeb Fframwaith. Dylid cynnwys asesiad o'r adnoddau sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid o gymharu â'r adnoddau sydd ar gael. [Y Safon – 3.1] | Gwyrdd | Sicrhau bod cynlluniau gwasanaeth bwyd yn y dyfodol yn cael eu datblygu yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth i gynnwys y canlynol:<br>- o fewn yr asesiad adnoddau, datganiad o nifer y swyddi sy'n ofynnol i ddarparu'r gwasanaeth (o ran swyddi cyfwerth ag amser llawn) a gwahaniaethu rhwng nifer y staff cymwys a'r staff cymorth<br>- archwilio'r duedd o ran twf neu ostyngiad mewn gwariant sy'n gysylltiedig â darparu'r gwasanaeth mewn termau real<br>- sicrhau bod ffigurau sy'n ymwneud â chyfanswm yr ymyriadau hylendid bwyd dyledus sy'n ofynnol i gydymffurfio â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd yn cynnwys ymyriadau mewn sefydliadau sydd â sgôr o D ac E ac yn cynnwys unrhyw ymyriadau a drosglwyddwyd o'r flwyddyn flaenorol<br>- cynnwys yr holl wybodaeth am berfformiad y blynyddoedd blaenorol yn erbyn y cynllun gwasanaeth ac unrhyw dargedau perfformiad, safonau a chanlyniadau penodol gan gynnwys ar gyfer sefydliadau â sgôr o D ac E<br>- sicrhau bod yr holl amrywiadau'n cael eu nodi a'u hegluro yn ystod yr adolygiad cyflenwi gwasanaethau blynyddol gan gynnwys y rheiny mewn perthynas ag ymyriadau hylendid bwyd a raglennwyd sy'n hwyr a busnesau newydd.<br>- sicrhau y rhoddir sylw i'r rhain (lle bo angen) fel meysydd i'w gwella | Mae gwelliannau a wnaed i'r trefniadau cynllunio gwasanaethau safonau bwyd yn cynnwys:<br>- datganiad o nifer y swyddi sydd eu hangen i ddarparu'r gwasanaeth a nifer y swyddi sydd ar gael (o ran swyddi cyfwerth ag amser llawn), gan wahaniaethu rhwng staff cymwys a staff cymorth<br>- ymyriadau dyledus a hwyr yn ôl categori risg | Sicrhau bod cynlluniau gwasanaeth bwyd yn y dyfodol yn cael eu datblygu yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth i gynnwys y canlynol:<br>- archwiliad o'r duedd o ran twf neu ostyngiad mewn gwariant sy'n gysylltiedig â darparu'r gwasanaeth mewn termau real | Iechyd yr Amgylchedd |

| Argymhelliad | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni | |
|---|---|---|---|---|---|
| 5.12 (ii) Adolygu a diweddaru dogfennau awdurdodi er mwyn sicrhau eu bod yn cynnwys cyfeiriadau at yr holl ddeddfwriaeth berthnasol a chyfredol a'u bod yn gyson â dyletswyddau, cymwysterau, hyfforddiant a phrofiad swyddogion, a'r Cod Ymarfer perthnasol. [Y Safon – 5.1 a 5.3] | Glas | Cwblhawyd. | | | Iechyd yr Amgylchedd |

| Argymhelliad | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni | |
|---|---|---|---|---|---|
| 5.12 (v) Cynnal cofnodion o gymwysterau academaidd perthnasol neu gymwysterau, hyfforddiant a phrofiad perthnasol eraill pob swyddog awdurdodedig yn unol â'r Codau Ymarfer perthnasol. [Y Safon – 5.5] | Glas | Cwblhawyd. | | | Iechyd yr Amgylchedd |

| Argymhelliad | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni | |
|---|---|---|---|---|---|
| 7.19 (i) Sicrhau bod ymyriadau/arolygiadau o safleoedd bwyd yn cael eu cynnal ar yr amlder gofynnol a bennir gan y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1] | Gwyrdd | Sicrhau bod pob sefydliad, gan gynnwys sefydliadau â sgôr o D ac E, yn cael ymyriad priodol ar yr amlder cywir. | Gostyngiad yn nifer yr ymyriadau sy'n dal i fod heb eu cynnal. Cynllun seiliedig ar risg ar waith er mwyn ail-alinio â'r amlderau ymyrryd a nodir yn y Cod erbyn diwedd 2025/26. | Sicrhau bod pob sefydliad, gan gynnwys sefydliadau â sgôr o D ac E, yn cael ymyriad priodol ar yr amlder cywir. | Iechyd yr Amgylchedd |

| Argymhelliad | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni | |
|---|---|---|---|---|---|
| 7.19 (ii) Cynnal ymyriadau/arolygiadau yn unol â chodau ymarfer perthnasol a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog, ac yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r awdurdod. [Y Safon – 7.2] | Glas | Sicrhau y caiff sefydliadau eu cymeradwyo, ym mhob achos, yn unol â'r codau ymarfer perthnasol, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog, a pholisïau a gweithdrefnau'r awdurdod. Sicrhau bod tystiolaeth i gefnogi penderfyniadau cymeradwyo ar gael, gan gynnwys cofnodion arolygu. | Roedd safleoedd wedi'u cymeradwyo yn unol â'r Cod, ac roedd y ffeiliau'n cynnwys tystiolaeth o adroddiadau cymeradwyo ac arolygu. | Cwblhawyd. | Iechyd yr Amgylchedd |

| Argymhelliad | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni | |
|---|---|---|---|---|---|
| 7.19 (iii) Asesu cydymffurfiaeth sefydliadau â'r safonau a bennwyd yn gyfreithiol a sicrhau bod arsylwadau a wneir wrth gynnal arolygiad yn cael eu cofnodi mewn modd amserol er mwyn atal gwybodaeth berthnasol rhag cael ei cholli. [Y Safon – 7.3 a 7.5] | Glas | Sicrhau bod cofnodion yn adlewyrchu asesiadau trylwyr bob tro mewn perthynas â HACCP, bwyd wedi'i fewnforio a chyflenwadau bwyd sy'n dod i mewn. | Roedd cofnodion yn cynnwys asesiadau trylwyr o HACCP, bwyd wedi'i fewnforio a manylion cyflenwadau bwyd sy'n dod i mewn. | Cwblhawyd. | Iechyd yr Amgylchedd |

| Argymhelliad | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni | |
|---|---|---|---|---|---|
| 7.33 (i) Sicrhau bod ymyriadau mewn safleoedd bwyd yn cael eu cynnal ar amlder nad yw'n llai na'r hynny a bennir o dan y cynllun sgorio ymyriadau a amlinellir yn y Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd. [Y Safon – 7.1] | Gwyrdd | Sicrhau bod pob busnes, gan gynnwys sefydliadau risg ganolig, risg isel a rhai heb sgôr, yn cael ymyriad priodol ar yr amlder cywir. | Gostyngiad yn nifer yr ymyriadau sy'n dal i fod heb eu cynnal. Cynllun seiliedig ar risg ar waith er mwyn ail-alinio â'r amlderau ymyrryd a nodir yn y Cod erbyn diwedd 2024/25. | Sicrhau bod pob busnes, gan gynnwys sefydliadau risg ganolig, risg isel a rhai heb sgôr, yn cael ymyriad priodol ar yr amlder cywir. | Safonau Masnach |

| Argymhelliad | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni | |
|---|---|---|---|---|---|
| 7.33 (iv) Adolygu ei weithdrefn arolygu er mwyn rhoi arweiniad i swyddogion ar y materion y dylent eu hystyried yn ystod arolygiadau safonau bwyd, a sicrhau bod y polisi ailymweld yn cynnwys y meini prawf i'w hystyried wrth bennu a ddylid cymryd camau dilynol ac amseriad yr ymweliad dilynol. [Y Safon – 7.4] | Glas | Cwblhawyd. | | | Safonau Masnach |

| Argymhelliad | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni | |
|---|---|---|---|---|---|
| 15.23 (ii) Sicrhau bod gwaith gorfodi cyfraith hylendid bwyd yn cael ei gynnal yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a gweithdrefnau cofnodedig yr awdurdod ei hun. [Y Safon – 15.2 ac 15.3] | Gwyrdd | Sicrhau bod copïau wedi'u llofnodi o'r hysbysiadau gwella hylendid yn cael eu cadw'n gyson a bod cydymffurfiaeth â hysbysiadau gwella hylendid yn cael ei chadarnhau'n gyson yn ysgrifenedig.<br><br>*Sicrhau bod adroddiadau ynghylch tor rheolau'n cael eu paratoi'n gyson cyn gwneud penderfyniadau o ran Rhybuddion Syml.* | Roedd copïau wedi'u llofnodi o'r hysbysiadau gwella hylendid wedi'u cadw a chadarnhawyd cydymffurfiad yn ysgrifenedig mewn rhai achosion.<br><br>Roedd adroddiadau ynghylch tor rheolau wedi'u paratoi cyn gwneud penderfyniadau o ran Rhybuddion Syml. | Sicrhau bod cydymffurfiaeth â hysbysiadau gwella hylendid yn cael ei chadarnhau'n gyson yn ysgrifenedig. | Iechyd yr Amgylchedd |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 16.15 (i) Cadw cofnodion cyfredol a chywir ar ffurf adferadwy ym mhob sefydliad bwyd yn ei ardal yn unol â'r Cod Ymarfer Cyfraith Bwyd a chanllawiau a gyhoeddwyd yn ganolog. Bydd y cofnodion hyn yn cynnwys adroddiadau o'r holl ymyriadau, y penderfyniad ynghylch cydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a wnaed gan y swyddog awdurdodedig, manylion y camau a gymerwyd lle yr amlygwyd diffyg cydymffurfiaeth, manylion unrhyw gamau gorfodi a gymerwyd, | Gwyrdd | Sicrhau bod templedi diwygiedig yn cael eu defnyddio yn ystod ymyriadau er mwyn darparu manylion yr uwch-swyddog, gwahaniaethu'n glir rhwng gofynion cyfreithiol ac argymhellion, a nodi'r terfynau amser ar gyfer cydymffurfio. | Roedd y dogfennau *pro forma* ar gyfer ymyriadau'n gwahaniaethu rhwng gofynion cyfreithiol ac argymhellion. Roedd y terfynau amser ar gyfer cydymffurfio a manylion yr uwch-swyddog wedi'u dogfennu mewn rhai adroddiadau. | Sicrhau bod templedi sy'n cynnwys manylion yr uwch-swyddog yn cael eu defnyddio yn ystod ymyriadau a bod terfynau amser ar gyfer cydymffurfio yn cael eu cofnodi. | Safonau Masnach |

| Argymhelliad | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni | |
|---|---|---|---|---|---|
| canlyniadau unrhyw waith samplu, manylion unrhyw gŵynion a chamau a gymerwyd, a gwybodaeth berthnasol am gofrestriad bwyd. [Y Safon – 16.1] | | | | | |
| | Glas | Sicrhau bod ffeiliau sefydliadau cymeradwy bob amser yn cynnwys rhestrau o gyflenwyr a chynhyrchion, a chynlluniau ar gyfer tynnu cynhyrchion yn ôl. | Roedd y ffeiliau cymeradwyo'n cynnwys gwybodaeth a oedd ar goll yn flaenorol. | Cwblhawyd. | Iechyd yr Amgylchedd |

| Argymhelliad | Statws | Heb ei gyflawni'n flaenorol | Cynnydd hyd yma | Heb ei gyflawni | |
|---|---|---|---|---|---|
| 19.17 (i) Adolygu a rhoi gweithdrefnau monitro mewnol cofnodedig ar waith ar gyfer safonau bwyd a bwyd anifeiliaid, a hynny er mwyn cadarnhau eu bod yn cydymffurfio â'r Safon, deddfwriaeth berthnasol, y Codau Ymarfer perthnasol, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a'i bolisïau a'i weithdrefnau cofnodedig ei hun. [Y Safon – 19.1 ac 19.2] | Gwyrdd | Sicrhau bod yr holl elfennau o fonitro mewnol sydd wedi'u cynnwys yn y weithdrefn yn cael eu rhoi ar waith, gan gynnwys arolygiadau dan oruchwyliaeth. | Mae'r system fonitro fewnol yn cael ei hadnewyddu ac yn cynnwys arolygiadau dan oruchwyliaeth. | Sicrhau bod yr holl elfennau o gyflenwi gwasanaethau yn destun monitro mewnol mewn modd sy'n seiliedig ar risg yn unol â'r weithdrefn a ailddatblygwyd. | Safonau Masnach |

Crynodeb

| | Cyfanswm | Iechyd yr Amgylchedd | Safonau Masnach |
|---|---|---|---|
| **Argymhellion** | **11** | **8** | **5** |
| **Cwblhawyd** | **5** | **5** | **1** |
| **Cynnydd da** | | **3** | **3** |
| **Cynnydd cyfyngedig** | | **0** | **1** |
| **Heb gymryd unrhyw gamau gweithredu** | | **0** | **0** |
| **Cyfanswm sy'n weddill** | **6** | **3** | **4** |